# Cyngor Cymuned Llangelynnin Community Council

## Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd Nos Fercher – 12.06.24 - 7yh yn Y Ganolfan, Llwyngwril

**Presennol:** David Griffiths - Cadeirydd (DG), Huw Davies (HD), Ian Williams (IW),
Keith Carroll (KC), Megan Griffiths (MG), Louise Hughes - Cynghorydd Sirol (LH) a Jane Jenkins (JJ) – Clerc.

1. **Ymddiheuriadau:** Nikki Roberts (NR), Geraint Edwards (GE).
   Dim yn bresennol a dim ymddiheuriad wedi eu derbyn gan: Jenny Warne, Geraint Micah na Jane Lawrence.

2. **Croeso'r Cadeirydd**: Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

**2.1 Datgan Diddordeb: Dim**

3. **Cymeradwyo Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf (15.05.24) -** cadarnhawyd fod cofnodion y cyfarfod dwethaf yn gywir.
   Cynnig: **HD** Eiliwyd: **KC** Arwyddwyd: **DG.**

4. **Materion yn codi o'r Cofnodion Blaenorol - 15.05.24:**

   a) **Hawl Tramwy/Ffordd Ddiddosbarth (Sunbeach)** – cadarnhaodd JJ nad oedd wedi cael ateb.
   Penderfyniad - gofyn i JJ fynd ar ôl Cyngor Gwynedd a Pharc Cenedlaethol Eryri am eu hymatebion.

   b) **Ceg yr Afon Gwril** – Cadarnhaodd JJ fod Mary Lloyd wedi dweud bod y peiriant ddim ar gaeal i wneud y gwaith ar hyn o bryd ac nad oeddent yn siŵr pryd y byddai'n cael ei ddychwelyd. Byddant yn cysylltu ymhellach unwaith y bydd ar gael. Dywedodd HD ei fod wedi siarad a swyddog o Gyfoeth Naturiol Cymru i'w gwneud yn ymwybodol o'r sefyllfa ac y byddent yn cael 14 diwrnod o rybudd.
   **Penderfyniad** - JJ i gysylltu â Mary Lloyd i ofyn os oedd modd gallu trefnu'r gwaith at ddiwedd Mis Medi bellach.

5. **Gohebiaeth wedi eu derbyn:**

   a) **Llythyr gan Mr John Hackney –** Cadarnhaodd JJ ei bod wedi cysylltu a Chyngor Gwynedd, ond nid oedd wedi derbyn ateb hyd yma. HD yn awgrymu siarad gyda Parc Cenedlaethol Eryri a gofyn am archwiliad o'r goeden, gan ei fod yn credu eu bod wedi gwneud hyn o'r blaen.
   **Penderfyniad -** JJ i gysylltu a'r Parc Cenedlaethol Eryri a hysbysu Mr Hackney o'r penderfyniad, a gadael iddo wybod y bydd yn derbyn y wybodaeth ddiweddaraf, pan ar gael.

   b) **Llythyr gan Sally Manning** – Cadarnhaodd JJ ei bod wedi derbyn e-bost yn diolch i aelodau'r Cyngor Cymuned am eu cefnogaeth gyda chais cynllunio diweddar Sunbeach.

6. **Materion Cynllunio:**
   **NP5/69/LB18F Cais "ôl-weithredol" i Newid Defnydd Hendre Hall, Llwyngwril** …….
   Dim gwrthwynebiad i'r cais yn gyffredinol gan y Cyngor Cymuned.
   **Fodd bynnag,** trafodwyd a chytunwyd ar y sylw a wnaed ar y cais gan aelod or gymuned, sef fod pob cais gan Hendre Hall wedi bod yn "ôl-weithredol", a bod hyn ddim yn dilyn y weithdrefn, nac yn deg i'r rhai sy'n gwneud hynny.
   **Penderfyniad** - JJ i ysgrifennu at Barc Cenedlaethol Eryri i dynu ei sylw at y pwynt hwn, ond fel arall dim gwrthwynebiad.
   - Datganodd MG ddiddordeb, felly gadawodd yr ystafell ac arwyddodd Ffurflen Datgan Diddordeb.

7. **Adroddiad Ariannol:**
   a. **Adroddiad Ariannol hyd at 21 Mai 2024** –
   Gwelliant wedi'i wneud i wall teipio, wedyn wedi'i gytuno fel cyfrif cywir a'i gymeradwyo.
   **Cynnig:** HD **Eilydd:** IW **Arwyddwyd:** DG.

   b. **Taliadau** – Sieciau am gyflog a chostau'r Clerc (31/05/24) a ffi adnewyddu yr ICO.

c. **Diweddariad ar yr Archwiliad Mewnol** – eglurodd JJ y cwestiynau a godwyd gan yr archwiliwr a dywedodd eu bod bellach wedi'u datrys. Bu'n rhaid i DG a JJ lofnodi ffurflen flynyddol newydd oherwydd mân newidiadau yn ôl y gofyn. Roedd yn rhaid cynhyrchu ffurflen amrywiad ychwanegol a diwygiad i un arall.
Byddai'r ddogfennaeth yn cael ei sganio i'r archwilydd ar 13.06.24.

**8. <u>Adroddiadau gan y Cynrychiolwyr:</u>**

Cytunodd MG gynrychiolu'r Cyngor Cymuned ar bwyllgor Un Llais Cymru.
**Penderfyniad** - JJ i hysbysu Un Llais am y newid yn y cynrychiolydd a'i manylion cysylltu.

**9. <u>Adroddiad y Cynghorydd Sirol:</u>**

- LH yn dweud ei bod wedi mynychu "workshop" i ymwneud a chyllid, ar zoom - byddai'n gallu darparu gwybodaeth unwaith y byddai'r adroddiad wedi'i gyhoeddi ar 12.07.24.
- Roedd hi hefyd wedi mynychu cyfarfod Pwyllgor Cyswllt Arfordir y Cambrian lle dywedwyd eu bod yn obeithiol y byddai cyllid yn cael ei ganiatáu erbyn diwedd Mis Mehefin, mewn perthynas â'r gwaith sydd ei angen rhwng Llwyngwril a Friog, ar y wal derfyn. Mae'n ymddangos y bydd wal yn cael ei hadeiladu (gobeithio ar hyd y rhan ganol, ac hefyd ar y troeon) a bydd hyn yn eiddo i Gyngor Gwynedd. Ychwanegwyd nad oedd yn disgwyl i'r gwaith ddechrau cyn Mis Rhagfyr 2024 – yr amserlen ddrafft wreiddiol yn amcangyfrif Medi 24 - Ionawr 25.
  **Penderfyniad** - JJ i gysylltu â Steffan Jones, Cyngor Gwynedd i ofyn am ddiweddariad – ydi'r amserlen yn gywir ??

**10. <u>Unrhyw Fater Arall:</u>**

• Gofynnodd HD i JJ gysylltu ag Adrian Willaims yng Nghyngor Gwynedd ynghylch cyflwr "layby" Pont y Cletwr, a oedd wedi gordyfu â chwyn. **Penderfyniad** - gofyn iddo drefnu gael y chwyn wedi eu chwistrellu cyn gynted â phosibl.
• Dywedodd HD fod grîn y pentref wedi'i dorri ond nad oedd yr ardal y tu allan i'r toiledau cyhoeddus.
**Penderfyniad** - JJ i gysylltu ag Adrian Williams i'w atgoffa y dylid torri hwn hefyd.
• Dywedodd DG pan oedd yn helpu gyda'r ras hwyaid, sylwodd ar dwll eithaf mawr a oedd i'w weld yn erydu'r clawdd ac a fyddai'n effeithio ar y llwybr troed ger Yr Hen Efail.
**Penderfyniad** - JJ i gysylltu ag adran llwybrau cyhoeddus Cyngor Gwynedd.
• Gofynnodd DG sut oedd aelodau y Cyngor Cymuned yn teimlo am **ymgynghoriadau cyhoeddus** yn cael eu gosod ar ein tudalen Facebook. Cytunodd pawb y dylent fod er mwyn cael mynediad i ddolenni ac ati ond na ddylai fod mynediad i unrhyw un i wneud sylwadau ar y dudalen.
• Roedd GE wedi gofyn i JJ drafod testun y blwch post yn Llangelynnin a oedd wedi'i ddwyn.
**Penderfyniad** - JJ a LH i gysylltu â'r Post Brenhinol a gofyn am un arall cyn gynted â phosibl.
• Roedd GE wedi gofyn i JJ ddweud nad oedd wedi gwneud unrhyw beth arall ynglŷn â'r ffrâm goeden Nadolig newydd a dywedodd pe bai unrhyw un eisiau cymryd yr awenau i ddylunio ac aseinio y byddai hynny'n ddefnyddiol gan na fyddai ar gael am ryw fis. Bydd KC a HD yn parhau â hyn.
• Soniodd KC fod person wedi torri ei goes ar ôl cwympo ar lwybr y traeth. Roedd wedi estyn allan atyn nhw ond dim ymateb eto. Nid yw'n glir a wnaethant faglu drosodd, neu os oedd y llwybr wedi ei ddifrodi i achosi'r cwymp. Gwnaethpwyd y pwynt nad yw'r Cyngor Cymuned yn gyfrifol am lwybrau troed, ac os oes cwyn yn cael ei wneud - y dylid ei wneud yn uniongyrchol i Gyngor Gwynedd.
• Gofynnodd JJ a oedd unrhyw beth wedi'i wneud mewn perthynas â'r "arolwg cyflwr y meinciau Rhoslefain a Llwytngwril " ?? ….. **nagoedd !**
Gyda GE i ffwrdd penderfynwyd gadael am ychydig fisoedd. Mater i gael ei adolygu eto Mis Medi.
• Soniodd JJ nad oedd ar gael ar gyfer cyfarfod 10.07.24, oherwydd triniaeth yn yr ysbyty, felly newidwyd dyddiad y cyfarfod i **17.07.24.**
Hefyd, JJ i ffwrdd yn Mis Medi, felly newidwyd dyddiad y cyfarfod i **25.09.24.**

## <u>Dyddiad y Cyfarfod Nesaf:- Nos Fercher - 17.07.24 - 7 o'r gloch yn y Ganolfan, Llwyngwril</u>

**<u>Arwyddwyd</u>**
**Cadeirydd** ……………………………………………………………………………………………… **Dyddiad** ……………………………